OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1808 (Cy.176)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 13 Gorffennaf 2010
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 15 Gorffennaf 2010
Y n dod i rym - - 9 Awst 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), (1A), (2), (3), (4) a (5) a 36 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**1**).

Yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhai yr effeithir arnynt.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 9 Awst 2010.

Diwygio Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005

2.—(1) Mae Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) yn lle'r diffiniad o "oats" rhodder—

""oats" means plants of the species *Avena nuda* L. and *Avena sativa* L" ;

(b) yn lle'r diffiniad o "triticale" rhodder—

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi (p.68), O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1986. Gweler adran 31(1) am ddiffiniad o "the Minister". O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 2, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol ac o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn trosglwyddo 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd paragraff 30 oAtodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 2005/3036 (Cy.224), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2009/1356 (Cy.131).

""triticale" means plants of the species *xTriticosecale* Wittm. Ex A. Camus (which are hybrids resulting from the crossing of a species of the genus *Triticum* and a species of the genus *Secale*)";

(c) yn lle'r diffiniad o "wheat" rhodder—

""wheat" means plants of the species *Triticum aestivum* L."; ac

(ch) yn lle'r diffiniad o "wild oats" rhodder—

""wild oats" means plants of the species *Avena fatua* and *Avena sterilis"*.

(3) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 12(2) yn lle "*Agropyron repens*" rhodder "*Elytrigia repens*";

(b) ym mharagraff 13(1) yn y tabl ar gyfer "(i) barley" rhodder "(i) barley (other than CS, C1 and C2 seed of barley officially classified as being of a naked barley type)"; ac

(c) ym mharagraff 13(1) yn y tabl ar ôl y rhes sy'n cynnwys y cofnod "(b) CS, C1 and C2 seed of oats officially classified as being of a naked oak type" mewnosoder y rhes ganlynol—

(ba)	(ba) CS, C1 and C2 seed of barley officially classified as being of a naked barley type	75

.

(4) Yn Atodlen 8 ym mharagraffau 1(e), 9(l) a 14(b)(ix) ar ôl "oats" mewnosoder "or barley" ac ar ôl "naked oat" mewnosoder "or a naked barley".

Diwygio Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005

3.—(1) Mae Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) yn lle'r diffiniad o "festulolium", rhodder—

""*festulolium*" means plants of the species *xFestulolium* Asch. & Graebn. which are hybrids resulting from the crossing of a species of the genus *Festuca* with a species of the genus *Lolium";*

(b) yn y diffiniad o "fine grasses" ar ôl "Schedule 2" mewnosoder "and plants of the species *Poaceae (Graminae)*";

(c) ar ôl y diffiniad o "fine grasses" mewnosoder y diffiniad canlynol—

""fine leaved sheep's fescue" means plants of the species *Festuca filiformis* Pourr.";

(ch) ar ôl y diffiniad o "fodder radish" mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

""hard fescue" means plants of the species *Festuca trachyphylla* (Hack.) Krajina";

(d) yn y diffiniad o "large seeded legumes" ar ôl "Schedule 2" mewnosoder "and plants of the species *Fabaceae (Leguminosae)*";

(dd) yn y diffiniad o "meadow fescue" yn lle "Hudson" rhodder "Huds";

(e) yn y diffiniad o "small Timothy" yn lle "bertolonii DC" rhodder "nodosum L"; ac

(**3**) O.S. 2005/1207 (Cy.79), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2009/1356 (Cy.131).